# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 10 Awst 2018

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD LLUN, 20 AWST 2018** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**CEISIADAU I'W HYSTYRIED -**

**3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – THE GALLEY, 118 VALE ROAD, Y RHYL** (Tudalennau 7 - 58)

Ystyried cais gan Heddlu Gogledd Cymru i adolygu Trwydded Eiddo a wnaed yn unol ag Adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003 o ran The Galley, 118 Vale Road, Y Rhyl (amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiedig ynghlwm).

**10.00 a.m.**

**4 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AM DRWYDDED EIDDO NEWYDD – 39 STRYD Y FFYNNON, RHUTHUN** (Tudalennau 59 - 100)

Ystyried cais am Drwydded Eiddo newydd, a gyflwynwyd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Trwyddedu 2003 o ran 39 Stryd y Ffynnon, Rhuthun (mae amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiedig ynghlwm).

**11.30 a.m.**

Nodwch y drefn i'w chymryd gan yr Is-Bwyllgor (sydd ynghlwm wrth y rhaglen hon).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Irving
Barry Mellor
Melvyn Mile

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

# Is - Bwyllgor Trwyddedu

## Trefniadau gwrandawiad arolwg
## S.51 Deddf Trwyddedu 2003

| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. | Cadeirydd yr Is - Bwyllgor Trwyddedu yn agor y gwrandawiad arolwg. Croesawu pawb. Cyflwyno cydweithiwr ar yr Is-bwyllgorau a swyddogion. |
| 2. | Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno cais. |
| 3. | Cadeirydd yn gwahodd yr ymgeisydd (neu gynrychiolydd) i gyflwyno'r cais. |
| 4. | Cadeirydd yn gwahodd (os oes yn bresennol) unrhyw Awdurdod cyfrifol arall i roi sylwadau. |
| 5. | Cadeirydd yn gwahodd Aelodau o'r Is - Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd ac unrhyw Awdurdod cyfrifol sy'n bresennol. |
| 6. | Cadeirydd yn gwahodd eraill i roi sylwadau |
| 7. | Cadeirydd yn gwahodd dalwyr Trwyddedau adeilad i roi sylwadau. |
| 8. | Cadeirydd yn gwahodd Aelodau o'r Is - Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r daliwr Trwyddedu adeilad ac eraill ac egluro unrhyw bwynt hefo'r ymgeisydd. |
| 9. | Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu gynrychiolydd) i roi datganiad terfynol. |
| 10. | Bydd Aelodau'r Is - Bwyllgor Trwyddedu yn encilio i ystyried eu penderfyniad hefo clerc y gwrandawid ac ymgynghorydd cyfreithiol. |
| 11. | Aelodau'r Is - Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd i fynegi eu penderfyniad, a'u rhesymau. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

## Y DREFN AR GYFER CEISIADAU A WNEIR DAN Y DDEDDF TRWYDDEDU 2003

| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. | Mae Cadeirydd yr Is-Bwyllgor Trwyddedu yn agor y Gwrandawiad ac yn croesawu pawb sy'n bresennol. Mae'n cyflwyno'r Cydweithwyr ar yr Is-Bwyllgor a'r Swyddogion sy'n Bresennol. |
| 2. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno'r Cais. |
| 3. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i gyflwyno'r Cais. |
| 4. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd unrhyw Awdurdodau Cyfrifol (e.e. Heddlu, Gwasanaeth Tân) i gyflwyno eu sylwadau. |
| 5. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd neu'r Awdurdodau Cyfrifol. |
| 6. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Rhai â Diddordeb i gyflwyno eu sylwadau. |
| 7. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Rhai â Diddordeb ac i egluro unrhyw bwyntiau gyda'r Ymgeisydd. |
| 8. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i wneud datganiad terfynol. |
| 9. | Bydd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn ymneilltuo i ystyried eu penderfyniad, gyda'r Clerc i'r Gwrandawiad a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol i'w canlyn. |
| 10. | Mae Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd gyda'u penderfyniad ar y Cais, gyda rhesymau i'w gefnogi. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 20 Awst 2018 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706433 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk |
| **TESTUN:** | Cais am Adolygu Trwydded Safle dan Adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003: **The Galley, 118 Vale Road, Y Rhyl Rhif y Drwydded: PL(A)0084** |

## 1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn cais i adolygu trwydded eiddo yn unol ag Adran 51 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

1.2 Cyflwynwyd y cais gan yr Arolygydd Andrew Williams o Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â The Galley, 118 Vale Road, y Rhyl LL18 2SR.

## 2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae hwn yn gais ar gyfer adolygu trwydded eiddo c. Gall awdurdod cyfrifol neu barti â chysylltiad ofyn am adolygiad o drwydded ond rhaid iddo fod yn berthnasol i un neu fwy o'r pedwar amcan trwyddedu:

- atal trosedd ac anhrefn;
- diogelwch y cyhoedd;
- atal niwsans cyhoeddus, ac
- amddiffyn plant rhag niwed.

2.2 Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a (ii) Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a (iii) y gyfraith ar y pryd.

2.3 Gan weithredu yn rhinwedd Awdurdod Trwyddedu, rhaid i Aelodau geisio hybu'r Amcanion Trwyddedu.

2.4 Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu na allant arfer eu disgresiwn mewn unrhyw achos, dim ond am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol, a dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd o'r Protocol, y Polisi neu'r Canllawiau.

## 3.0 ARGYMHELLION

3.1 Penderfyniad yr Is-Bwyllgor

Mae'n rhaid i'r Is-bwyllgor, wedi ystyried y sail ar gyfer yr Adolygiad ynghyd ag unrhyw sylwadau ychwanegol a wnaed, gymryd y camau hynny (isod) y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gall yr Is-bwyllgor:

- addasu amodau'r Drwydded;
- dileu gweithgaredd trwyddedig penodol o’r Drwydded
- cael gwared ar oruchwyliwr dynodedig y safle;
- atal y Drwydded am gyfnod heb fod yn fwy na 3 mis, neu
- dirymu'r drwydded

## 4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae arweiniad a gyhoeddwyd dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn datgan:

*“Mae’r camau a nodir yn Neddf 2003 ar gyfer adolygu trwyddedau eiddo yn rhoi amddiffyniad allweddol i gymunedau lle mae problemau cysylltiedig â’r amcanion trwyddedu yn digwydd ar ôl rhoi neu amrywio trwydded eiddo.*

*Ar unrhyw adeg, yn dilyn rhoi trwydded safle, gall awdurdod cyfrifol, neu barti â chysylltiad, ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded oherwydd mater sy'n codi yn y safle mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu"*

4.2 Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno cais am adolygiad o drwydded eiddo Mrs Vanessa Michelle Steele ar gyfer The Galley, 118 Vale Road, y Rhyl.

4.3 Goruchwyliwr Dynodedig yr Eiddo ar hyn o bryd yw Mrs Vanessa Michelle Steele.

4.4 Gellir archwilio copi llawn o'r Drwydded Eiddo bresennol gan gynnwys yr atodlen weithredu bresennol yn Atodiad A.

4.5 Mae’r sail a nodir yn y cais dros adolygu’r drwydded yn ymwneud ag atal trosedd ac anhrefn a diogelwch y cyhoedd, a gofynnir am adolygiad oherwydd:

*“Y pryderon sydd gan Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â rheolaeth yr eiddo trwyddedig. Nid yw Deiliad y Drwydded Eiddo (sydd hefyd yn Oruchwyliwr Dynodedig yr Eiddo) wedi ymgysylltu â'r Heddlu i fynd i'r afael a'r pryderon hyn, er gwaethaf tystiolaeth glir o ddiffyg dealltwriaeth o'r Amcanion Trwyddedu fel y’u diffinnir yn Neddf Trwyddedu 2003.”*

4.6 Gellir archwilio manylion llawn y cais am adolygiad a’r digwyddiadau y bu’n rhaid i Heddlu Gogledd Cymru ymateb iddynt yn yr eiddo yn Atodiad B i'r Adroddiad hwn.

4.7 Mae Heddlu Gogledd Cymru a'r Cyngor wedi cychwyn menter ar y cyd i ymweld ag eiddo trwyddedig yn ardal y Rhyl er mwyn gwneud yn glir iddynt y ddyletswydd sydd arnynt i beidio â gwerthu diodydd i bobl sydd wedi meddwi yn ogystal ag i annog trwyddedai i gefnogi’r cynllun Gwarchod Tafarndai. Mae Gwarchod Tafarndai yn gynllun gwirfoddol a sefydlwyd gyda’r nod o sicrhau amgylchedd yfed diogel, wedi’i arwain yn gyfrifol mewn eiddo trwyddedig.

4.8 Ymwelwyd â’r Galley ar 27 Mai 2018 fel rhan o’r fenter hon. Yn ystod yr ymweliad profodd Swyddogion iaith ddifrïol ac ymddygiad ymosodol a bygythiol gan aelod gwrywaidd o staff rheoli'r eiddo a oedd wedi meddwi. Roedd y Swyddogion o’r farn fod tîm rheoli'r eiddo yn ddirmygus o'r cynllun Gwarchod Tafarndai ac y byddent yn gwerthu diodydd i bwy bynnag y mynnont.

4.9 Oherwydd natur pryderon Heddlu Gogledd Cymru am yr ymweliad hwn, anfonwyd llythyr at Ddeiliad y Drwydded Eiddo yn ei gwahodd i fynychu cyfarfod i drafod yr ymweliad ac i geisio dod o hyd i ffordd gefnogol o symud ymlaen. Mewn ymateb i’r llythyr dywedodd Deiliad y Drwydded Eiddo pe bai’n dymuno bod yn aelod o’r cynllun Gwarchod Tafarndai yn y dyfodol, y byddai’n rhoi gwybod i’r Heddlu a’r Awdurdod Lleol.

4.10 Oherwydd na wnaeth Deiliad y Drwydded fynd i’r afael â holl bryderon Heddlu Gogledd Cymru, trefnwyd cyfarfod pellach i drafod ymweliad diweddar yr heddlu â’r eiddo ac i gytuno ar gyd-ddealltwriaeth o’r gofyniad cyfreithiol sydd ar yr eiddo i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu ymhellach. Ni fynychodd Deiliad y Drwydded Eiddo’r cyfarfod.

4.11 Mewn ymateb i’r cais am Adolygiad, mae Deiliad y Drwydded Eiddo yn awr wedi awgrymu ei bod yn barod i fynychu unrhyw gyfarfodydd Gwarchod Tafarndai lleol. Gellir dod o hyd i gopi o’r ymateb yn Atodiad C.

4.12 Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn darparu lluniau teledu cylch cyfyng i'r Aelodau eu gweld ar ddiwrnod y gwrandawiad.

4.13 <u>Deddf Trwyddedu 2003 - gwybodaeth/gofynion</u>
Pan fydd cais yn cael ei gyflwyno i adolygu trwydded eiddo, mae’n rhaid rhoi copi llawn o’r cais (a dogfennau amgaeedig) i bob un o’r awdurdodau cyfrifol ac i ddeiliad y drwydded eiddo:

4.14 <u>Hysbysiad Cyhoeddus</u>
Pan fydd Awdurdod Trwyddedu yn derbyn cais am adolygiad, mae'r Ddeddf yn mynnu bod rhybudd yn hysbysebu'r cais yn cael ei arddangos yn yr eiddo

dan sylw, ac ym mhrif swyddfeydd yr Awdurdod Trwyddedu am o leiaf 28 diwrnod yn olynol.

4.15 Sylwadau Perthnasol
Ni chafwyd unrhyw sylwadau pellach gan yr Awdurdodau Cyfrifol nac aelodau'r cyhoedd mewn ymateb i'r cais am Adolygiad.

4.16 Ystyriaethau a Materion sy'n berthnasol i'r Cais
Bydd yr Aelodau yn nodi y dylent, wrth drafod y cais, bwyso a mesur buddiannau perchnogion, staff, cwsmeriaid a chymdogion yr eiddo.

4.17 Yr Amcanion Trwyddedu / Arweiniad / Ystyriaethau Polisi
Mae'r sylwadau perthnasol yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu. Mewn perthynas â'r cais hwn cyfeirir yr Is-bwyllgor at yr arweiniad a roddir dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:

- Atal Trosedd ac Anhrefn - **Adran 2.1 i 2.7**
- Diogelwch y Cyhoedd - **Adran 2.8 i 2.17**

4.18 Datganiad o Bolisi Trwyddedu - Proses Adolygu
Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais hwn, at Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor:

- Atal Trosedd ac Anhrefn - **Adran 5**
- Diogelwch y Cyhoedd - **Adran 6**

4.19 Atgoffir yr aelodau hefyd ei bod yn ofynnol iddynt ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais yn unol â'r Ddeddf Trwyddedu - –

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sydd yn rhoi dyletswydd arnynt i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Rheolau cyfiawnder naturiol cyfraith gyffredin
- Darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998

## 5.0 SYLWADAU'R SWYDDOGION

5.1 Mae'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol i gynorthwyo Aelodau gyda'u hystyriaethau.

5.2 Dylai'r Aelodau roi ystyriaeth lawn i'r Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor, gan dalu sylw arbennig i'r meysydd hynny a amlygir yn yr adroddiad hwn. Atgoffir yr Aelodau mai dim ond ar sail tystiolaeth/rheswm da yn unig y dylid gwyro oddi wrth y Polisi.

5.3 Yn ychwanegol at 5.2 uchod, atgoffir yr Aelodau hefyd bod protocol cyd gorfodaeth yn bodoli rhwng Heddlu Gogledd Cymru a'r Cyngor. Mae'r protocol cyd orfodaeth yn disgrifio sut y bydd Heddlu Gogledd Cymru a'r awdurdod trwyddedu yn delio â phroblemau sy'n codi mewn eiddo mewn perthynas ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu drwy system ysgol tri cham.

5.4 Mae’r polisi’n nodi y gellir dwysau’r broses i gam dau neu gam tri ar yr ysgol mewn achosion difrifol iawn.

5.5 Yng ngoleuni methiant Deiliad y Drwydded i ymgysylltu â Heddlu Gogledd Cymru, bu’n angenrheidiol dwysau’r achos hwn yn syth i gam tri.

5.6 Atgoffir aelodau’r Is-bwyllgor Trwyddedu o’r angen i ddarparu rhesymau dros eu penderfyniad.

5.7 Atgoffir aelodau hefyd y bydd yn rhaid atodi unrhyw amod y cytunir ei fod yn berthnasol ac yn gymesur at y Drwydded Eiddo.

5.8 Dylai Aelodau fod yn ymwybodol wrth ystyried unrhyw amodau diwygiedig i'w hatodi wrth y Drwydded Eiddo, bod angen diddymu unrhyw amod o natur debyg sydd eisoes yn bodoli.

5.9 Dylai Aelodau nodi unwaith y bydd camau, fel y nodir yn Adran 3 o’r adroddiad hwn wedi eu cymryd a bod penderfyniad yn cael ei wneud, na fydd penderfyniad yr Awdurdod yn dod i rym ar unwaith. Bydd unrhyw benderfyniad yn dod i rym dim ond pan fydd y cyfnod ar gyfer gwneud apêl wedi dod i ben, neu, os gwneir apêl, unwaith y bydd penderfyniad wedi’i wneud am yr apêl.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 20 Awst 2018 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706433 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk |
| **TESTUN:** | Deddf Trwyddedu 2003<br>Cais am Drwydded Eiddo<br>39 Stryd y Ffynnon, Rhuthun<br>Rhif Cais 529266 |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael cais am Drwydded Eiddo newydd, a gyflwynwyd yn unol ag Adran 17 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 mewn perthynas â 39 Stryd y Ffynnon, Rhuthun. O ganlyniad i'r ymgynghori angenrheidiol a'r Rhybudd Cyhoeddus gofynnol, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn sylwadau perthnasol sy'n gwrthwynebu'r cais. Mae angen i'r Is-bwyllgor wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais, gan ystyried yr holl ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae hwn yn gais am Drwydded Eiddo newydd. Mae'r sylwadau sydd wedi eu derbyn yn ymwneud ag Atal Trosedd ac Anrhefn ac Atal Niwsans Cyhoeddus.

2.2 Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a (ii) Chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

2.3 Gan weithredu yn rhinwedd Awdurdod Trwyddedu, rhaid i Aelodau geisio hybu'r Amcanion Trwyddedu, ac os yw Aelodau'n ystyried bod materion yn gysylltiedig ag un neu fwy o amcanion, gallant arfer eu disgresiwn.

2.4 Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu na allant arfer eu disgresiwn mewn unrhyw achos, am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol, a dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os

penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd o’r Protocol, y Polisi neu’r Canllawiau.

## 3.0 ARGYMHELLION

3.1 Penderfyniad yr Is-Bwyllgor

Mae’n rhaid i’r Is-Bwyllgor, o ystyried y sylwadau a wneir, gymryd camau o’r fath (isod) y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo’r amcanion trwyddedu. Gall yr Is-bwyllgor:

- Ganiatáu’r Cais fel y gwnaethpwyd cais amdano
- Cyflwyno unrhyw amodau, i’r graddau y mae’r Awdurdod yn eu hystyried yn angenrheidiol i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu
- Gwrthod y Cais

## 4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Ar 29 Mehefin 2018, cafodd yr Awdurdod Trwyddedu gais llawn am Drwydded Eiddo newydd. Mae’r Cais wedi cael ei gyflwyno gan Richard John Green ac mae copi llawn o’r cais ar gael i'w archwilio yn Atodiad A.

4.2 Mae’r safle cyn cynnig gweithredu fel meicro-dafarn yn gwerthu alcohol i’w yfed ar ac oddi ar y safle.

4.3 Mae’r Ymgeisydd wedi gofyn am ganiatâd i ddarparu alcohol fel a ganlyn:

| GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG | DYDDIAU GWEITHREDOL | AMSER O | AMSER TAN |
|---|---|---|---|
| Gwerthu Alcohol (i’w yfed ar ac oddi ar y safle) | Dydd Llun – dydd Sul | 12:00 | 22:00 |
| Oriau y bydd yr eiddo yn agored i’r cyhoedd | Dydd Llun – dydd Sul | 12:00 | 22:00 |

4.4 <u>Deddf Trwyddedu 2003 – gwybodaeth/gofynion</u>
Pan fydd cais yn cael ei gyflwyno am drwydded eiddo, mae’n rhaid rhoi copi llawn i’r Awdurdodau Cyfrifol, sef:

- Yr Heddlu
- Gwasanaeth Tân
- Cynllunio
- Safonau Masnach
- Iechyd yr Amgylchedd

- Iechyd a Diogelwch
- Gwasanaethau Plant
- Awdurdod Iechyd
- Awdurdod Trwyddedu
- Swyddog Mewnfudwyr

4.5 Hysbysiad Cyhoeddus

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gynnwys hysbysiad mewn papur newydd lleol a gosod hysbysiad ar yr adeilad neu wrth ei ymyl. Bydd hyn yn galluogi unigolion, corff neu fusnes i gyflwyno sylwadau perthnasol. Ond, bydd yn rhaid iddynt ddangos bod eu sylwadau yn ymwneud â hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

4.6 Sylwadau Perthnasol

Derbyniwyd sylwadau sydd, ym marn y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, yn berthnasol mewn perthynas â'r cais o fewn y cyfnod statudol o 28 diwrnod:

4.6.1 Mae pedwar sylw ysgrifenedig wedi dod i law gan Bartïon sydd â Diddordeb mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus. Mae'r sylwadau'n ymwneud ag aflonyddwch posibl oherwydd sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gellir gweld y manylion yn Atodiad B.

4.6.1.1 Mae'r Uwch Swyddog Technegol (Iechyd yr Amgylchedd) wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn ymwneud ag agosrwydd yr eiddo i eiddo preswyl. Mae nifer o amodau, felly, wedi eu cynnig a'u cytuno gan yr ymgeisydd i'w cynnwys o fewn y drwydded, pe bai'n cael ei gymeradwyo, er mwyn helpu i atal niwsans cyhoeddus. Gellir gweld yr amodau cytunedig yn Atodiad C.

4.6.2 Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno sylwadau i'r cais, yn ogystal â nifer o amodau arfaethedig i'w hymgorffori o fewn atodlen weithredu'r eiddo, pe bai'r cais yn cael ei ddyfarnu. Mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau ei fod yn barod i dderbyn yr amodau ychwanegol hyn. Gellir gweld yr amodau cytunedig yn Atodiad D.

4.6.3 Mae'r ymgeisydd hefyd wedi ymateb i bryderon y preswylwyr gan ddarparu ymateb ysgrifenedig, gellir gweld y manylion yn Atodiad E.

4.7 Mae'r Ymgeisydd wedi nodi ei barodrwydd i gyfryngu â'r Partïon sydd â Diddordeb ond mae rhai gwrthwynebwyr wedi dweud y byddai'n well ganddynt pe bai'r mater yn cael ei roi gerbron Aelodau.

4.8 Mae'n bwysig bod Aelodau'n nodi, wrth awgrymu'r dewis o gyfryngu neu

drafodaeth i bartïon ac ymgeiswyr â diddordeb, mae'r swyddogion yn ofalus i bwysleisio na ddylai aelodau'r cyhoedd deimlo bod rhaid iddynt gymryd rhan mewn cyfryngu. Hefyd, ni ddylai’r ymgeiswyr deimlo dan bwysau i dderbyn newidiadau i’w hatodlen weithredu os ydynt yn teimlo ei bod yn fwy priodol i’r Aelodau wneud penderfyniad ynglŷn â’r cais.

4.9 Ystyriaethau Amcanion Trwyddedu / Canllawiau / Polisi

Mae'r sylwadau perthnasol yn ymrwymo’r amcanion trwyddedu.

Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â’r cais hwn, at y canllawiau a roddwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:

- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 2.15 i 2.21**
- Atal Trosedd ac Anrhefn **Adran 2.1 i 2.6**

4.10 Datganiad Polisi Trwyddedu

Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â’r cais, at Ddatganiad Polisi Trwyddedu’r Cyngor:

- Atal Trosedd ac Anrhefn **Adran 3.1**
- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 3.3**

Yn olaf, atgoffir yr aelodau hefyd bod rhaid iddynt ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniad ynglŷn â’r cais yn unol â’r Ddeddf Trwyddedu -

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy’n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Rheolau cyfraith gyffredin o gyfiawnder naturiol
- Darpariaethau o Ddeddf Hawliau Dynol 1998

5.0 **SYLWADAU’R SWYDDOGION**

5.1 Mae Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno’r sylwadau canlynol i gynorthwyo Aelodau gyda’u hystyriaethau.

5.2 Mae’n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno Atodlen Weithredu ar gyfer ymgeisio am Drwyddedau Eiddo newydd ac i amrywio Trwyddedau Eiddo. Mae’r Ymgeisydd wedi cynnig nifer o amodau, gellir gweld yr atodlen weithredu arfaethedig fel rhan o'r Drwydded Eiddo yn Atodiad A.

5.3 O ystyried y pryderon a godwyd gan y gwrthwynebwyr, bydd Aelodau'n dymuno gofyn cwestiynau perthnasol i’r Ymgeiswyr (neu eu cynrychiolwyr) er mwyn sicrhau eu bod yn bwriadu defnyddio dulliau priodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

5.4 Atgoffir Aelodau mai dim ond Aelodau o Is-bwyllgor sy’n gallu atodi unrhyw newidiadau i'r cais gwreiddiol, h.y. amodau ychwanegol, wrth

Drwydded Eiddo. Yr Aelodau sydd hefyd i ystyried a fernir unrhyw amod(au) yn angenrheidiol ac yn briodol.

6.0 **CRYNODEB**

6.1 Fe ddylai Aelodau ystyried y Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn ofalus, yn arbennig o ran y meysydd a amlygir yn yr adroddiad hwn. Atgoffir Aelodau mai ar sail tystiolaeth/rheswm da yn unig y dylid gwyro oddi wrth y Polisi.

6.2 Bydd gofyn i'r Aelodau benderfynu a yw’r sylwadau a gyflwynwyd yn berthnasol ac yn briodol i fodloni'r amcanion trwyddedu, a phe bai Aelodau o blaid caniatáu'r cais, maent yn ystyried ymgorffori Amodau Heddlu Gogledd Cymru a Rheoli Llygredd o fewn yr Atodlen Weithredol yr eiddo.

6.3 Yn sgil y sylwadau sydd wedi dod i law gan y Parti â Diddordeb, bydd yr Aelodau yn dymuno ystyried y cais hwn am Drwydded Eiddo yn ofalus.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag